I S - D D E D D F W R I A E T H
C Y M R U

# 2023

# Cyfarwyddyd Safle wedi ei Ddiogelu Piblinell Carbon Deuocsid HyNet (Cymru) 2023

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan erthyglau 14(3), 18(1) a 22(5) o Orchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Rheoli Datblygu) (Cymru) 2012(**1**), yn rhoi'r Cyfarwyddyd a ganlyn:

**Enwi a dod i rym**

**1.** Enw'r Cyfarwyddyd hwn yw Cyfarwyddyd Safle wedi ei Ddiogelu Piblinell Carbon Deuocsid HyNet (Cymru) 2023 a daw i rym ar 16 Hydref 2023.

**Dehongli**

**2.**—(1) Yn y Cyfarwyddyd hwn—

mae "awdurdod cynllunio lleol" ("*local planning authority*") i'w ddehongli yn unol â Rhan 1 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990(**2**);

mae i "cais AEA" ("*EIA application*") yr ystyr a roddir yn rheoliad 2 o Reoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Asesu Effeithiau Amgylcheddol) (Cymru) 2017(**3**);

ystyr "caniatâd cynllunio" ("*planning permission*") yw caniatâd o dan Ran 3 neu adran 293A o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990;

mae i "cyfathrebiad electronig" yr ystyr a roddir i "electronic communication" yn adran 15(1) o Ddeddf Cyfathrebu Electronig 2000(**4**) (dehongli cyffredinol);

ystyr "map diogelu" ("*safeguarding map*") yw'r map a farciwyd "HYNET-WSP-VES-XX-DR-GI-0582" ac a ardystiwyd gan Weinidogion Cymru ar 16 Hydref 2023;

---

(**1**) O.S. 2012/801 (Cy. 110). Ceir diwygiadau i Orchymyn 2012 nad ydynt yn berthnasol i'r Cyfarwyddyd hwn.
(**2**) 1990 p. 8.
(**3**) O.S. 2017/567 (Cy. 136).
(**4**) 2000 p. 7. Diwygiwyd adran 15(1) gan baragraff 158 o Atodlen 17 i Ddeddf Cyfathrebu 2003 (p. 21).

ystyr “safle wedi ei ddiogelu” (“*safeguarded site*”) yw yr ardal yng Nghymru a nodir gan y llinell goch ar y map diogelu;

ystyr “ymgynghorai” (“*consultee*”) yw Liverpool Bay CCS Limited (Rhif Cwmni 13194018) (Liverpool Bay CCS Ltd, Eni House, 10 Ebury Bridge Road, Llundain, SW1W 8PZ.

(2) Bodlonir gofyniad yn y Cyfarwyddyd hwn bod unrhyw hysbysiad wedi ei roi, neu fod unrhyw ddogfen arall wedi ei hanfon, drwy roi’r hysbysiad neu drwy anfon unrhyw ddogfen drwy gyfrwng cyfathrebiad electronig.

**Cymhwyso**

**3.** Mae’r Cyfarwyddyd hwn yn gymwys i unrhyw gais am ganiatâd cynllunio a wneir i awdurdod cynllunio lleol ar 16 Hydref 2023 neu ar ôl y dyddiad hwnnw sy’n ymwneud â thir yn y safle wedi ei ddiogelu.

**Ymgynghori cyn rhoi caniatâd**

**4.** Cyn rhoi caniatâd i ddatblygu tir yn y safle wedi ei ddiogelu, rhaid i awdurdod cynllunio lleol ymgynghori â’r ymgynghorai.

**5.** Pan fo’n ofynnol i’r awdurdod cynllunio lleol ymgynghori â’r ymgynghorai o dan y Cyfarwyddyd hwn cyn rhoi caniatâd cynllunio, rhaid i’r awdurdod roi hysbysiad i’r ymgynghorai am y cais.

**Y cyfnod na chaiff awdurdod cynllunio lleol roi caniatâd cyn iddo ddod i ben**

**6.** Pan fo’n ofynnol i awdurdod cynllunio lleol ymgynghori â’r ymgynghorai yn unol â pharagraff 4, ni chaiff yr awdurdod benderfynu ar y cais tan o leiaf 30 o ddiwrnodau yn achos cais AEA neu 21 o ddiwrnodau mewn unrhyw achos arall ar ôl y dyddiad y rhoddir hysbysiad o dan baragraff 5.

**Hysbysu Liverpool Bay CCS Limited a Gweinidogion Cymru**

**7.** Rhaid i’r awdurdod cynllunio lleol hysbysu’r ymgynghorai a Gweinidogion Cymru os yw’r awdurdod yn cynnig rhoi caniatâd cynllunio i ddatblygu tir yn y safle wedi ei ddiogelu, yn groes i unrhyw sylwadau a gafwyd gan yr ymgynghorai.

**8.** Pan fo’n ofynnol i awdurdod cynllunio lleol hysbysu’r ymgynghorai a Gweinidogion Cymru yn unol â pharagraff 7 rhaid i’r awdurdod, cyn gynted ag y bo’n ymarferol—

(a) anfon at yr ymgynghorai a Gweinidogion Cymru ddatganiad o’r rhesymau dros gynnig

rhoi caniatâd cynllunio yn groes i sylwadau’r ymgynghorai;

(b) anfon yr wybodaeth ychwanegol a ganlyn at Weinidogion Cymru—

(i) copi o’r cais (gan gynnwys unrhyw blaniau neu luniadau cysylltiedig), a

(ii) copi o sylwadau’r ymgynghorai am y datblygiad arfaethedig.

### Yr ail gyfnod na chaiff awdurdod cynllunio lleol roi caniatâd cyn iddo ddod i ben


**9.** Yn ddarostyngedig i baragraff 10, pan fo awdurdod cynllunio lleol wedi hysbysu Gweinidogion Cymru yn unol â pharagraff 7, ni chaiff yr awdurdod benderfynu ar y cais tan o leiaf 28 o ddiwrnodau ar ôl y dyddiad yr anfonir yr wybodaeth a bennir ym mharagraff 8 at Weinidogion Cymru.

**10.** Os yw Gweinidogion Cymru, cyn i’r cyfnod o 28 o ddiwrnodau a grybwyllir ym mharagraff 9 ddod i ben, wedi hysbysu’r awdurdod cynllunio lleol nad ydynt yn bwriadu dyroddi cyfarwyddyd o dan adran 77 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990(**1**) mewn cysylltiad â’r cais, caiff yr awdurdod fwrw ymlaen i benderfynu ar y cais.

### Y cyfarwyddyd yn dod i ben

**11.** Bydd y Cyfarwyddyd hwn yn peidio â chael effaith ar ddiwedd y diwrnod ar 31 Rhagfyr 2029.

Llofnodwyd gan Neil Hemington, Pennaeth y Gyfarwyddiaeth Gynllunio, o dan awdurdod y Gweinidog Newid Hinsawdd, un o Weinidogion Cymru



(**1**) Ceir diwygiadau i adran 77 nad ydynt yn berthnasol i’r Cyfarwyddyd hwn.